# Cyngor Tref Criccieth

## Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Fawrth, 30 Gorffennaf 2019 am 7.00 o'r gloch**
yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

1-07/19 **Presennol**
Cadeirydd: Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Phil Jones, Cyng. Ian Rees, Cyng. Angela Hughes, Mrs Megan Jones, Mr Rich Wilcock, Mrs Margaret Rees;
Dr Catrin Jones - Clerc
Ms Ann Llwyd – cyfieithydd

2-07/19 **Ymddiheuriadau**
Cyng. Sian Williams, Mrs Nan Davies Hughes

3-07/19 Datgan diddordeb

4-07/19 Adroddiadau i'w derbyn:

Nodwyd bod gwaith y Cyngor Tref i weithio gyda'r gymuned ar y Cynllun Cymunedol wedi arwain at lwyddiant sicrhau arian gan Arloesi Gwynedd Wledig ar gyfer (a) a (b) isod.

(a) Strydoedd Unigryw Criccieth a'r Digwyddiad Creadigol (arian gan Arloesi Gwynedd Wledig ac arian cyfatebol gan y Cyngor Tref)
Derbyniwyd adroddiad ar y gwaith cyffrous oedd yn digwydd fel rhan o'r prosiect a'r gwaith da gwirfoddol oedd yn cymryd lle fel rhan ohono. Roedd trefniadau ar gyfer diwrnod Digwyddiad Creadigol 3/8 yng ngardd y Lion yn eu lle a lot o waith da yn mynd ymlaen fel rhan o'r prosiect.
Nodwyd bod cerflun cyffrous wedi cael ei gomisiynu gan Howard Bowcott ar thema cerdd Robert Graves "The Welsh Incident" ar gyfer y Maes ac y bydd yn ei le erbyn yr Hydref.
Yn sgil y gwaith yma da oedd nodi bod cais wedi ei gyflwyno ar gyfer the "Great British High Street Awards".
**Penderfyniad:** derbyn yr adroddiad gyda diolch i bawb ynghlwm am eu gwaith a dymuno'n dda am ddiwrnod llwyddiannus..

(b) Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell (arian gan Arloesi Gwynedd Wledig ac arian cyfatebol gan y Cyngor Tref)
Nodwyd Bod Donald Insall Associates Penseiri a Chwmni Celyn wedi cael eu hapwyntio i arwain ar astudiaeth dichonoldeb yr Hen Lyfrgell – a byddai adroddiad cynhwysfawr gydag opsiynau i'w hystyried gan y Cyngor Tref erbyn diwedd Medi. Fel rhan o'r astudiaeth bydd sesiwn ymgynghori gyda phartneriaid a thrigolion ar opsiynau a dyluniadau - gan gynnwys sesiwn agored yn y Neuadd Goffa ar brynhawn a nos 4 Medi 2019. Roedd hyn ar y ddealltwriaeth glir nad oedd unrhyw ymrwymiad gan y Cyngor Tref ar hyn o bryd.
**Penderfyniad:** derbyn yr adroddiad gyda diolch

(c) Un Llais Cymru – Cyngor i Gynghorau Cymuned a Thref ar Weithio gyda Phobl Ifanc
Nodwyd yr esiamplau a oedd wedi ei gynnwys yn y ddogfen gyngor gan Un Llais Cymru. - gellir ystyried ar gyfer Cynllun Cymunedol Criccieth. Gan nad oedd cynrychiolydd ar gael i adrodd nôl

**Penderfyniad:** Gwahodd sylwadau gan yr unigolion sydd wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r ieuenctid.

(d) Adroddiadau gan Is-grŵp Amgylchedd
Derbyniwyd adroddiad ar waith y Grŵp yn nodi bore llwyddiannus iawn oedd wedi ei gynnal yn y Neuadd Goffa ym Mis Mai - roedd tua 80 o bobl wedi mynychu. Bydd y cyfarfod nesaf yn son am ail gylchu. Roedd y grŵp hefyd wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn beth oedd yn digwydd i wastraff plastig. Y bwriad oedd ceisio sicrhau bod busnesau'r dre yn ddi-blastig.
**Penderfyniad:** derbyn yr adroddiad gyda diolch

(e) Asesiad Tai Fforddiadwy
Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi cytuno i Grŵp Cynefin gynnal asesiad am angen tai fforddiadwy yng Nghriccieth - roedd yr angen am dai fforddiadwy yn rhan o'r Cynllun Cymunedol yn dilyn yr ymgynghoriad gyda'r gymuned.

5/07/19 Materion y cyfeiriwyd at y Grŵp Llywio gan Gyngor Tref Criccieth:

a. Cynllun Cymunedol Criccieth yn dilyn yr ymgynghoriad gyda'r gymuned roedd y Cyngor Tref wedi cymeradwyo'r Cynllun ym Mis Mawrth.
-**Penderfyniad:** I argymell i'r Cyngor Tref y dylid cynnwys cyfeiriad at hybu a diogelu'r diwylliant Cymraeg fel rhan o'r cynllun.

b. Paratoi argymhellion gwariant i gefnogi'r Cynllun Cymunedol- i gynnwys ystyriaeth rhaglen plannu coed yng Nghriccieth (cofnod 17-06/19 Cyngor Tref)

Nodwyd bod angen cadw mewn cof:

(i) Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - "Public Authorities must seek to maintain and enhance biodiversity". Nodwyd mai un ffordd o wneud hyn byddai plannu coed ac i gael arbenigwr i gynnal arolwg yng Nghriccieth. Roedd yr holl dorri coed yn y dref wedi bod o gonsyrn i'r Cyngor Tref - hefyd mae'r Cyngor Tref wedi ymrwymo i'r Siarter Coed. Nodwyd y gwaith da gyda Criccieth yn ei Blodau a hefyd bod y Cyngor Tref wedi cefnogi'n ariannol y Grŵp Ffrindiau Gardd wyllt. Mynegwyd consyrn hefyd am dyfiant y coed ar y Maes a'r angen posib i'w tocio.
**Penderfyniad:** Y Cyng. Phil Jones i gysylltu gydag arbenigwr coed i gynnal asesiad o gyflwr y coed yn y dref, ynghyd a chynllun ar gyfer plannu pellach.

(ii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, sef: ac o ganlyniad i Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn

Roedd y Cyngor yn awyddus hefyd i weld meinciau yn cael eu hail osod ar y Prom - ac mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i'w ail osod - ond does dim dyddiad ar gyfer ymgymryd â'r gwaith yma wedi digwydd eto. Hefyd roedd nifer o'r meinciau o gwmpas y dref angen gwaith arnynt a Criccieth yn ei Blodau a'r Grŵp Amgylcheddol wedi cychwyn ar y gwaith o'i paentio.

Roedd y Cyngor wedi gwario ar Hysbysfwrdd Newydd a hefyd mae wedi costio i gynnal sesiynau ymgynghori gyda Sian Shakespear sydd wedi arwain at y Cynllun –

Nodwyd bod y Cyngor yn talu £6,000 i Gyngor Gwynedd fel cyfraniad i gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor a hefyd £5,000 y flwyddyn am doriadau gwair gan Gyngor Gwynedd.

**Cyllid penodol i'r Cynllun Cymunedol**
£29,000 yn y gyllideb yn 2019/20– o'r arian tu cefn :

Hyd yn hyn mae'r symiau yma wedi eu clustnodi :
Astudiaeth Dichonoldeb yr Hen Lyfrgell - £3,874 (ac efallai bydd angen ychwanegu at hyn)
Strydoedd Unigryw Criccieth - £4,500

Nodwyd bod angen canolbwyntio ar Flaenoriaethau 1.

**Penderfyniad:**
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd argymell y blaenoriaethau isod ar gyfer gweithredu a gwariant gan Gyngor Tref. Dyma'r argymhellion gan y Grwp Llywio i'w ystyried gan y Cyngor Tref:

(i) lleoli pedair mainc newydd 'plastic wood' yn y dref: ger yr hen jêl, ger Bron Rhiw, llecyn gyferbyn a'r siop esgidiau, tu allan i'r Swyddfa Bost. Amcan bris o tua £1,000
(ii) edrych ar bosibilrwydd o sefydlu WiFi gyhoeddus yn y dref
(iii) offer ffitrwydd awyr agored
(iv)cael lleoliad i bobl ifanc ymgynnull
(v) ystyried y ffyrdd gorau o sicrhau llais i bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.
(vi) trefnu arolwg o gyflwr y coed yn y dref yn flaenoriaeth, ynghyd a chynllun ar gyfer plannu pellach
(vii) Edrych i gynhyrchu map o Griccieth
(viii) Gwella arwyddion - Dylai'r Cyngor Tref osod rhai arwyddion eu hunain gan gadw at arferion maint, lliw ayb. Yr un cyntaf ddylai fod arwydd ar gyfer y maes parcio.
(ix) Dyfodol Adeilad yr Hen Lyfrgell – dibynnol ar yr Astudiaeth Dichonoldeb a thrafodaethau pellach gan y Cyngor Tref.

Gweler Atodiad 1 argymhelliad i'r Cyngor Tref gymeradwyo Adroddiad Cynnydd a Blaenoriaethau am Weithredu Pellach.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor Tref dylid paratoi cynllun gwariant gan hefyd ystyried ffynonellau cyllid allanol i gefnogi'r Cynllun Cymunedol.

6-07/19 **Ffynonellau cyllid allanol i gefnogi'r Cynllun Cymunedol**
Dylid ystyried opsiynau e.e.
Arian Ewrop **Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)** ac ar gael yn flynyddol tan 2020
Busnes Cymru
Princes Trust

7-07/19 Dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Grŵp Llywio
I'w drefnu eto.